aelodau etholedig ac amseriad cyfarfodydd eu cyhoeddi sawl blynedd yn ôl. Nid yn yn unig nad ydynt yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol yn Neddf 2021, nid ydynt chwaith yn cydnabod newid deddfwriaethol ehangach fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 neu newidiadau eraill yn Neddf 2021 ei hun fel creu cyd-bwyllgorau corfforedig a'r ddyletswydd sydd ar brif gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus drwy hunanasesiadau ac asesiadau panel a darparu adroddiadau ar y rhain.

1.4 I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dirymu canllawiau cynharach a gyhoeddwyd ar gyfer prif gynghorau a'u disodli â chyfres ddiwygiedig o ganllawiau statudol sy'n adlewyrchu nid yn unig y newidiadau deddfwriaethol ond hefyd newidiadau yn y ffyrdd y gall pobl ymgysylltu â'u haelodau etholedig a'u cynghorau a'r newidiadau mewn technoleg sy'n galluogi cynghorau i gynnal eu busnes mewn ffyrdd gwahanol.

1.5 Mae'r canllawiau statudol presennol ar gael yn:

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Canllawiau Statudol Mehefin 2012
Canllawiau Statudol Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Mai 2013
Mynychu Cyfarfodydd Cyngor o Bell 2014
Deddf Llywodraeth Leol 2000 Canllawiau Statudol 2006

1.6 Dylid nodi bod canllawiau statudol diwygiedig eisoes wedi cael eu cyhoeddi ar newidiadau i'r ddarpariaeth absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau etholedig yn Neddf 2021 a chynnal cyfarfodydd aml-leoliad, hefyd yn Neddf 2021, sydd ar gael yma:

Absenoldeb teuluol

Canllawiau ar Gyfarfodydd Aml-leoliad

1.7 Mae ymgynghoriad ar wahân yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar ganllawiau sy'n ymwneud â newidiadau a gyflwynwyd i'r fframwaith safonau moesegol yn adrannau 62 a 63 o Ddeddf 2021, y ddyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad yn eu grŵp gwleidyddol a dyletswydd pwyllgorau safonau i lunio adroddiad blynyddol.

Ymgynghoriad ar Ganllawiau Statudol ar Safonau Ymddygiad

1.8 Yn olaf, bwriedir adolygu ac ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig o ran yr adroddiadau blynyddol y caiff prif gynghorwyr eu gwneud a'r trefniadau ar gyfer eu cyhoeddi y mae'n rhaid eu sefydlu o dan adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ddiweddarach eleni ac i'r canllawiau fod ar gael i gynorthwyo cynghorwyr a swyddogion ar gyfer adroddiadau a gyhoeddir yn ymwneud â blwyddyn 2022-23 y cynghorau.

### Y camau nesaf

1.9 Y bwriad yw cyhoeddi'r canllawiau statudol a'r cyfarwyddyd cyfansoddiad yn dilyn yr ymgynghoriad estynedig hwn yn hydref 2022. Y nod yw ymgorffori'r canllawiau hyn a chanllawiau perthnasol cyfredol eraill mewn 'canllaw' llawer mwy sydd wedi cael ei ddisgrifio hyd yma fel y 'Llawlyfr Democratiaeth'.

1.10 Y bwriad yw dwyn ynghyd yr holl waith a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r Llawlyfr Democratiaeth fel 'Canllaw i'r Fframwaith Deddfwriaethol ar gyfer Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru'. Bydd y canllaw yn ei gwneud yn haws cael gafael ar wybodaeth am y fframwaith deddfwriaethol ar lywodraethu prif gynghorau'n wleidyddol a chraffu arnynt ar gyfer y cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb, ond bydd hefyd yn diwallu anghenion swyddogion ac aelodau mewn prif gynghorau drwy ddwyn ynghyd i un lle ystod eang o ganllawiau statudol newydd a chyfredol a wnaed o dan nifer o ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth.

1.11 I'r perwyl hwn, bydd y fersiwn derfynol yn cynnwys adrannau rhagarweiniol nad ydynt yn ganllawiau statudol ond sy'n rhoi trosolwg o rôl a swyddogaethau prif gynghorau, rôl aelodau etholedig a swyddogion, cyfranogiad y cyhoedd a'r fframwaith llywodraethu, gan gynnwys gwasanaethau democrataidd. Bydd yr adran hon ar ffurf 'cwestiynau ac atebion' a bydd hefyd yn cynnwys dolenni ac esboniadau cryno o'r ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth berthnasol.

1.12 Bydd y Canllaw terfynol hefyd yn cynnwys adrannau ar berfformiad a llywodraethu a gweithio mewn partneriaeth a fydd yn cynnwys y canllawiau presennol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2021 ar y materion hyn:

Canllawiau Statudol ar Berfformiad a Llywodraethu Prif Gynghorau

Canllawiau Statudol ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig

1.13 Gallai'r Canllaw fod yn ddefnyddiol ac o ddiddordeb i aelodau eraill o'r teulu llywodraeth leol megis cynghorau tref a chymuned, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub a chyd-bwyllgorau corfforedig. Ond, nid yw wedi'i fwriadu i gefnogi eu gweithrediad nhw o ddydd i ddydd yn yr un modd ag y bwriedir iddo gefnogi prif gynghorau. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu croesgyfeirio rhai o'r canllawiau statudol yn y Canllaw terfynol gyda chanllawiau a gyhoeddir ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig lle mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhwym wrth yr un gofynion, neu ofynion tebyg.

1.14 Bydd y Canllaw wedyn yn cael ei ddiweddaru a'i ddiwygio wrth i ddeddfwriaeth newid. Bwriadwn hefyd gael rhaglen dreigl o adolygiadau strwythuredig o'r Canllaw gan ddechrau ar ganol pob tymor llywodraeth leol fel y gellir diweddaru'r Canllaw ac

unrhyw ganllawiau statudol cyn dyfodiad gweinyddiaethau newydd. Bydd hwn hefyd yn gyfle i nodi unrhyw is-ddeddfwriaeth y gallai fod angen ei diweddaru a materion posibl ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol.

# 2 Canllawiau Statudol ar Aelodau Etholedig ac ar Gymorth, Hyfforddiant a Datblygu iddynt

**Rhagymadrodd**

2.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r canllawiau statudol canlynol

- Amseriad Cyfarfodydd Cyngor
- Hyfforddiant, Datblygu a Chymorth i Aelodau Etholedig
- Cymorth Ymchwil a Gwasanaethau i Aelodau Etholedig

**Amseriad Cyfarfodydd Cyngor**

2.2 Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adran 6(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Maent yn disodli'r canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012. Er bod y canllawiau'n cael eu disodli, nid yw craidd y canllawiau wedi newid. Fodd bynnag, mae'r pwyslais ar y pwrpas sy'n sail i'r gofynion yn adran 6 wedi cael ei atgyfnerthu i danlinellu pwysigrwydd ystyried amseriad, amlder a hyd pob math o gyfarfodydd cyngor drwy lens cydraddoldeb ac amrywiaeth a chadw hyn dan sylw'n rheolaidd.

2.3 Mae'r canllawiau nawr hefyd yn adlewyrchu gofynion Deddf 2021 ei bod yn rhaid i gynghorau alluogi pob cyfarfod i gael ei gynnal ar sail aml-leoliad.

**Hyfforddiant, Datblygu a Chymorth i Aelodau Etholedig**

2.4 Mae'r rhain yn ganllawiau statudol a wneir o dan Adran 7(4) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur), adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2.5 Mae Rhan 1 o'r Mesur yn cynnwys darpariaethau sydd â'r bwriad o gryfhau democratiaeth leol. Mae Pennod 1 o'r Rhan honno yn ymwneud â'r cymorth a ddarperir i aelodau awdurdod lleol ac mae adran 7 o'r bennod honno yn darparu ar gyfer hyfforddi a datblygu'r aelodau hyn. Mae'r canllawiau'n ymwneud â materion y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth sicrhau cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w haelodau fel sy'n ofynnol gan adran 7 o'r Mesur.

2.6 Unwaith eto, er bod y canllawiau a gyhoeddwyd yn 2012 yn cael eu diddymu, mae'r fersiwn ddiwygiedig yn aros yr un fath i raddau helaeth ond mae'n ceisio mynd i'r afael â'r rolau a'r heriau newydd y gallai cynghorwyr eu hwynebu, fel bod yn gynorthwyydd i'r weithrediaeth neu sylw negyddol ar gyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn cydnabod bod fformatau gwahanol bellach ar gael yn haws i gefnogi hyfforddiant a datblygiad aelodau megis dysgu ar-lein a gweithdai a thiwtora electronig.

Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i gyflawni ei swyddogaethau. Dylai'r achos dros adnoddau ar gyfer y cymorth hwn fod yn rhan o ystyriaethau cyllideb y Pwyllgor Gwasanaethau Democtrataidd a'i drafodaethau gyda'r cyngor. Rhagwelir y bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democtrataidd yn dechrau'r broses hon drwy nodi'r llinell sylfaen o gymorth sydd eisoes ar gael i aelodau, ac y bydd yn gweithio wedyn gydag aelodau i ganfod sut y gellid datblygu'r cymorth hwn a'i baramedrau dros amser.

# 3 Canllawiau Statudol ar Strategaethau Cyfranogi a Chynlluniau Deisebau

## Rhagymadrodd

3.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r canllawiau statudol canlynol:

- Strategaethau Cyfranogi
- Cynlluniau Deisebu

## Strategaethau Cyfranogi

3.2 Mae'r rhain yn ganllawiau statudol a wneir o dan adran 44 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021).

3.3 Diben y canllawiau hyn yw helpu cynghorau i baratoi a chynnal eu strategaethau cyfranogaeth gyhoeddus sy'n ceisio cefnogi ac annog gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar, yn deall ac yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau yn ardal y cyngor.

3.4 Nod y canllawiau yw nodi pwysigrwydd ystyried barn a phrofiadau pobl a chymunedau yn yr ardal ac na ddylai hyn fod yn weithgaredd 'unwaith yn unig'. Er bod y strategaeth gyfranogi yn un o ofynion y ddeddfwriaeth, y prif nod yw gwreiddio dull o weithio gyda phobl a chymunedau a'u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau fel rhan o weithgareddau democrataidd y cyngor o ddydd i ddydd.

3.5 Nod y ddyletswydd yn Neddf 2021 yw gweithio mewn cytgord â'r dyletswyddau presennol sydd gan gynghorau i gynnwys y cyhoedd ac ymgynghori â nhw, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddyletswydd hon yn gweithio gyda dyletswyddau presennol gan ei bod yn ymwneud yn benodol â chyfranogiad ym mhrosesau democrataidd y cyngor, gan gydnabod dimensiwn democrataidd cynghorau sy'n benodol ac yn rhan annatod o'u cyfansoddiad.

3.6 Mae'r canllawiau'n cydnabod bod gan gynghorau eisoes nifer o lwybrau cyfranogi yn ymwneud â chyfranogiad yn y broses ddemocrataidd a dylid dod â'r rhain at ei gilydd dan adain strategaeth cyfranogiad y cyhoedd. Dylai staff, arweinwyr ac aelodau etholedig y cyngor gymryd rhan yn eang er mwyn adeiladu perchnogaeth a gwreiddio cyfranogiad fel dull gweithredu sy'n sail i weithgareddau democrataidd y cyngor.

3.7 Mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod ac yn awgrymu y dylai'r cyfleoedd a ddaw yn sgil technoleg ddigidol gael eu hystyried fel ffactor sylfaenol wrth ddatblygu ac

adolygu’r strategaeth ond, yn yr un modd, dylai cynghorau ystyried y potensial y caiff rhai pobl eu heithrio os dibynnir yn llwyr ar dechnoleg ddigidol.

3.8 Dylai’r strategaeth nodi sut y caiff ei hadolygu’n ffurfiol a sut y caiff ei diweddaru rhwng cyfnodau adolygu ffurfiol.

3.9 Yn dilyn ymgynghoriad, bydd cyfeiriadau'n cael eu cynnwys yn yr 'Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru' sy'n cael eu diweddaru ar hyn o bryd.

**Cynlluniau Deisebau**

3.10 Mae’r rhain yn ganllawiau statudol a wneir o dan adran 44 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021).

3.11 Diben y canllawiau hyn yw helpu cynghorau i baratoi a chynnal cynlluniau deisebau sydd â'r nod o alluogi cymunedau i archwilio cymorth ar gyfer materion penodol fel sail i drafodaethau'r cyngor. Bydd y cynlluniau’n rhan o strategaeth cyfranogiad y cyhoedd y cyngor.

3.12 Mae’r canllawiau’n nodi’r broses o sefydlu cynlluniau deisebau yng nghyd-destun rhyngweithio arall rhwng cynghorau a’r cyhoedd ac yn nodi’r manteision posibl y gellir eu cronni drwy ddefnyddio cynlluniau deisebau yn ystyrlon yn y cyd-destun hwn.

3.13 Ei nod yw taro cydbwysedd rhwng egwyddorion arweiniol i sefydlu a chynnal cynllun deisebau a disgresiwn lleol i deilwra’r cynllun i anghenion ac amgylchiadau lleol. Mae’n awgrymu efallai y bydd cynghorau’n dymuno cydweithio naill ai’n rhanbarthol neu’n genedlaethol i ystyried arferion gorau a dulliau cyffredin o ymdrin â rhai o agweddau’r cynlluniau fel y trothwy ar gyfer llofnodion a allai ysgogi pwyllgor neu’r cyngor llawn i ystyried deiseb.

# 4 Canllawiau Statudol ar Lywodraethu Gwleidyddol

**Rhagymadrodd**

4.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r canllawiau statudol canlynol:

- Cyfansoddiadau
- Arweiniad i'r Cyfansoddiad
- Arfer Swyddogaethau gan Gynghorwyr
- Gweithrediaethau Cynghorau
- Sicrhau Trosolwg a Chraffu Effeithiol
- Penodi Personau i Gadeirio Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Aelodau Cyfetholedig Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Trefniadau Galw i Mewn
- Galwadau gan Gynghorydd i Weithredu
- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu – Ystyried Barn y Cyhoedd
- Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio

Mae hefyd yn cynnwys:

- Cyfarwyddyd y Cyfansoddiad (Cymru) 2022
- Canllawiu Anstatudol ar Gynorthwywyr Gwleidyddol

**Cyfansoddiadau, Arweiniad i'r Cyfansoddiad a Chyfarwyddyd y Cyfansoddiad (Cymru) 2022**

4.2 Mae'r set hon o ganllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 37 o Ddeddf 2000 yn cael ei diweddaru, fel y mae cyfarwyddyd y cyfansoddiad, i adlewyrchu'r newid deddfwriaethol sylweddol sydd wedi digwydd ers i'r canllawiau gwreiddiol gael eu cyhoeddi yn 2001 a 2006.

4.3 Mae'r canllawiau diwygiedig yn ceisio adlewyrchu newidiadau fel dileu rhai modelau o drefniadau gweithredol o'r llyfr statud, cyflwyno rhannu swyddi ar gyfer aelodau gweithredol a chynorthwywyr i'r weithrediaeth, creu pwyllgorau gwasanaethau democrataidd a phwyllgorau archwilio, a ail-enwyd wedi hynny yn bwyllgorau llywodraethu ac archwilio gyda swyddogaethau ychwanegol a chyfansoddiad diwygiedig, mwy o weithio mewn partneriaeth â phrif gynghorau eraill, aelodau eraill o deulu llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus eraill a'r trydydd sector a llawer o newidiadau eraill

4.4 Mae’r arweiniad i’r cyfansoddiad yn ddarpariaeth statudol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf 2021. Ni fwriedir i’r canllawiau nodi’n fanwl beth y dylai’r arweiniad ei gynnwys ond dylai ddarparu egwyddorion arweiniol ar gyfer ei ddatblygu a’i gyhoeddi. Pwrpas creu arweiniad i’r cyfansoddiad yw cael rhywbeth sy’n ddefnyddiol ac o gymorth i bobl leol a grwpiau lleol a allai fod eisiau deall mwy am sut mae’r cyngor yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau, felly mae’r canllawiau’n ceisio gadael lle i ddisgresiwn lleol o ran beth fyddai’n hwyluso’r nod hwnnw orau.

**Arfer Swyddogaethau gan Gynghorwyr**

4.5 Nid yw’r canllawiau hyn wedi newid ar wahân i gynnwys cyfeiriadau newydd at ddeddfwriaeth ddiweddar fel Deddf 2021.

**Gweithrediaethau Cynghorau**

4.6 Mae’r rhain yn ganllawiau newydd a gyhoeddir o dan adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a ddiwygiwyd gan adran 59 o Ddeddf 2021 i alluogi Gweinidogion Cymru yn benodol i gyhoeddi canllawiau a allai, ymhlith pethau eraill, gynnwys darpariaeth a luniwyd i annog arferion da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth (o fewn ystyr adran 8(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2006).

4.7 Mae’r canllawiau wedi’u hanelu at gefnogi’r gwaith o weithredu darpariaethau newydd yn Neddf 2021 sy’n galluogi rhannu swyddi gweithrediaeth a phenodi cynorthwywyr i’r weithrediaeth. Mae’r canllawiau’n dangos mai diben y darpariaethau hyn yw galluogi’r weithrediaeth i adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae’r aelodau’n eu cynrychioli a’u bwriad yw rhoi mwy o gyfle i arweinwyr fyfyrio ar amrywiaeth wrth wneud penodiadau i’r weithrediaeth neu benodi cynorthwywyr gweithrediaeth. Atgoffir cynghorau na ddylid defnyddio rhannu swyddi na chynorthwywyr gweithrediaeth fel ffordd o gynyddu nifer yr aelodau ar weithrediaeth neu'r cymorth i aelodau.

4.8 Mae’r canllawiau hefyd yn atgoffa’r weithrediaeth o bwysigrwydd dull adeiladol o graffu ac yn gofyn i’w haelodau gefnogi rôl craffu wrth ddangos atebolrwydd democrataidd effeithiol.

**Trosolwg a Chraffu**

4.9 Mae’r adran hon yn cynnwys sawl darn o ganllawiau ar drosolwg a chraffu effeithiol gan gynnwys camau i’w cymryd i sicrhau trosolwg a chraffu effeithiol, penodi cadeiryddion pwyllgorau trosolwg a chraffu, cyfethol aelodau i bwyllgorau trosolwg

a chraffu, trefniadau galw i mewn, galwadau gan gynghorwyr i weithredu, ystyried barn y cyhoedd a phwyllgorau trosolwg a chraffu ar y cyd.

4.10 Nid yw'r canllawiau ar sicrhau trosolwg a chraffu effeithiol, penodi cadeiryddion a chyfethol yn newid ac eithrio diweddariadau sy'n ymwneud â deddfwriaeth fwy diweddar fel Deddf 2021. Nid yw'r canllawiau ar benodi cadeiryddion ac aelodau cyfetholedig i bwyllgorau trosolwg a chraffu wedi newid chwaith ac eithrio diweddaru cyfeiriadau deddfwriaethol.

4.11 Yn yr un modd, dim ond o ran cyfeiriadau deddfwriaethol y mae'r canllawiau ar alw i mewn a galwadau gan gynghorwyr i weithredu wedi cael eu diweddaru, a diweddarwyd y canllawiau ar alwadau gan gynghorwyr i weithredu hefyd i adlewyrchu'r canllawiau newydd sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn mewn perthynas â chymorth ymchwil a gwasanaethau i aelodau.

4.12 Mae'r canllawiau ar ystyried barn y cyhoedd hefyd wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth newydd, yn enwedig y ddyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan pan wneir penderfyniadau a nodir yn adrannau 39 i 41 sy'n cyfeirio'n benodol at y ddyletswydd hon ym Mesur 2011 yn adran 40(2)(e).

4.13 Ers cyhoeddi'r canllawiau trosolwg a chraffu ar y cyd am y tro cyntaf yn 2013, mae nifer o ddatblygiadau wedi bod yn ymwneud â chynghorau'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd a chyda phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft, cyd-bwyllgorau corfforedig a alluogwyd gan Ddeddf 2021 a byrddau gwasanaethau cyhoeddus a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y mae nifer ohonynt bellach yn cwmpasu ardal mwy nag un cyngor. Felly, mae'r canllawiau wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r datblygiadau hyn a newidiadau deddfwriaethol perthnasol eraill sy'n bwysig i'r cyd-destun y mae craffu'n digwydd ynddo. Fodd bynnag, ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnwys na'r fethodoleg y mae'r canllawiau'n eu nodi.

**Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd**

4.14 Nid yw'r canllawiau hyn chwaith wedi newid llawer o gwbl ond maent wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol, gan gynnwys dileu'r gwaharddiad deddfwriaethol ar i'r swyddog monitro hefyd fod yn bennaeth gwasanaethau democrataidd (gweler adran 161 o Ddeddf 2021).

**Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio**

4.15 Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newid yn enw, aelodaeth a swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gyflwynwyd gan Ddeddf 2021. Yn benodol, y gofyniad i'r pwyllgor gael ei gadeirio gan berson lleyg, y dylai traean o'r aelodau fod yn aelodau lleyg, na ddylai mwy nag un aelod o'r

weithrediaeth neu gynorthwyydd i'r weithrediaeth fod yn aelod, dyletswydd newydd i adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin yn effeithiol â chwynion trefniadaethol a chwynion am wasanaethau, a dyletswydd newydd i adolygu ac asesu'r trefniadau y mae'r cyngor wedi'u rhoi ar waith i gyflawni ei ddyletswydd i barhau i adolygu ei berfformiad o dan adran 89 o Ddeddf 2021. Ni fwriedir i hyn ddyblygu na gorgyffwrdd â rôl pwyllgorau trosolwg a chraffu o ran perfformiad gwasanaethau, ond yn hytrach mae'n ymwneud yn benodol ag effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer hunanasesu ac asesiadau panel fel sy'n ofynnol o dan Ran 6 o Ddeddf 2021.

**Cynorthwywyr Gwleidyddol**

4.16 Canllawiau anstatudol yw'r rhain a gyhoeddir i helpu cynghorau i benodi cynorthwywyr gwleidyddol. Maent yn dwyn ynghyd amlinelliad o'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth berthnasol ac yn atgoffa cynghorau bod cyfyngiadau gwleidyddol ar y penodiadau hyn ac y dylent fod yn agored ac yn dryloyw.

